OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2585 (Cy.217)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Hydref 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *25 Hydref 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Rhagfyr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r personau hynny a ystyrir yn briodol ganddynt(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 22(1), 42(1), 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**2**):

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2010 a deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2010.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio'r Prif Reoliadau

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, oni fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Prif Reoliadau ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y rhif hwnnw.

**3.**—(1) Mae'r Prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (Dehongli) paragraff (1)—

(a) yn lle'r diffiniad o "cynllun lleoli oedolion" rhodder—

(**1**) *Gweler* adran 22(9) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 am y gofyniad i ymgynghori.
(**2**) 2000 p.14. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2004/1756 (Cy.188).

ystyr "cynllun lleoli oedolion" ("*adult placement scheme*") yw cynllun y gwneir trefniadau oddi tano, neu y bwriedir gwneud trefniadau oddi tano, i ddim mwy na thri oedolyn gael llety a chael gofal personol yng nghartref person nad yw'n berthynas iddynt;";

(b) yn y diffiniad o "perthynas", hepgorer is-baragraff (ch).

**Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002**

**4.** Mae rheoliadau 46 a 47 o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**4**) wedi eu hepgor.

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

21 Hydref 2010

(**4**) O.S. 2002/324 (Cy.37).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud dau ddiwygiad i Reoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004 ("y Prif Reoliadau").

Yn gyntaf, mae'r diffiniad o "cynllun lleoli oedolion" wedi ei ddiwygio i godi nifer mwyaf yr oedolion y caniateir eu lleoli gyda gofalwr lleoliad oedolion o dan gynllun lleoli oedolion o ddau i dri.

Yn ail, mae'r diffiniad o "perthynas" yng nghyswllt oedolyn a leolir o dan y cynllun wedi ei ddiwygio er mwyn tynnu ohono gyn ofalwr maeth a roddodd lety i'r oedolyn hwnnw. Effaith y diwygiad hwn yw dod â lleoliadau gyda chyn ofalwyr maeth o fewn cwmpas cynlluniau lleoli oedolion.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 drwy hepgor rheoliadau 46 a 47. Effaith y diwygiad hwn yw na fydd cartrefi gofal bychain lle y mae'r darparwr yn "ofalwr lleoliad oedolion" (fel y diffinnir yr ymadrodd yn rheoliad 46 o Reoliadau 2002) yn ddarostyngedig mwyach i'r gyfundrefn reoleiddiol "ysgafn ei chyffwrdd" (fel y'i disgrifir yn rheoliad 47 o Reoliadau 2002) ac y byddant yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chartrefi gofal eraill, onid ydynt wedi eu heithrio rhag cofrestru drwy ddwyn eu hunain o fewn cwmpas y Prif Reoliadau.